Partneriaeth Cydwasanaethau
Gwasanaethau Cyflogaeth
Shared Services Partnership
Employment Services


# Cylchlythyr System Adrodd Genedlaethol y Gweithlu Cymru (WNWRS)

**Chwefror 2021**

## System Adrodd Genedlaethol y Gweithlu Cymru (WNWRS)

### Ffocws ar: Rôl Staff Gweinyddol/Anghlinigol

Mae sawl practis yn adrodd am lefel uchel o'r grŵp 'Arall' yn y maes hwn. Edrychwch i weld a all unrhyw rai o'ch staff symud o'r grŵp hwn ac i rôl staff fwy diffiniedig. Er enghraifft, os oes gennych lanhawr yn gweithio yn eich practis, dylai fod yn y grŵp staff 'Ystadau ac Ategol' yn hytrach nag yn y grŵp 'Arall'. Gweler isod restr o'r diffiniadau o Rolau Staff, yn unol â Chanllawiau'r Modiwl Cofnodi Data. Mae'r fersiwn lawn ar gael ar ein gwefan. Dolen yma.



**Diffiniadau o Rolau Staff Gweinyddol/Anghlinigol**

| Rôl yr Aelod Staff | Diffiniad |
|---|---|
| Prentis | Dysgu ac ennill profiad gyda hyfforddiant strwythuredig mewn practis meddyg teulu, gan arwain at gymhwyster cydnabyddedig, cenedlaethol yn y maes gweinyddol o'i ddewis |
| Ystadau ac Atodol | E.e. glanhawyr, garddwyr ac ati a gyflogir yn uniongyrchol gan y practis |
| Partner Rheoli | Mae Partneriaid Rheoli yn ymwneud â phob agwedd ar reoli staff neu eiddo. Dyma berchenogion busnes hunangyflogedig sydd dan gontract gyda'r GIG Sylwch, dylai Meddygon Teulu Partner a Phartneriaid Nyrsio gael eu cynnwys yn y categorïau perthnasol uchod |
| Rheolwr | Rheolwr sy'n ymwneud â phob agwedd ar reoli staff neu eiddo, ond nad yw'n Bartner |
| Ysgrifennydd Meddygol | Mae Ysgrifennydd Meddygol yn darparu cymorth ysgrifenyddol/gweinyddol/yn cynnal cofnodion. Nhw sy'n ymdrin ag ymholiadau llinell flaen gan gleifion/perthnasau/staff, yn cydlynu rhestrau aros/clinigau a gallent oruchwylio staff eraill |
| Arall | Unrhyw aelodau staff gweinyddol eraill sy'n gweithio yn y practis |
| Derbynnydd | Mae Derbynyddion yn darparu cymorth clercaidd/gwasanaeth derbynfa, yn ateb ymholiadau cyffredinol ac yn cyflawni tasgau gweinyddol |
| Teleffonydd | Mae Teleffonydd yn gweithio switsfwrdd |

**Cam Gweithredu: Reolwyr Practisiau, gwiriwch fod rôl staff gweinyddol/anghlinigol yn gywir ar WNWRS.**

### Locum Hub Wales

Os ydych wedi bod yn defnyddio Gweithwyr Locwm yn ystod mis Chwefror, gwiriwch fod unrhyw sifftiau allanol sydd wedi'u gweithio yn cael eu nodi gan eich Gweithwyr Locwm ar Locum Hub Wales. Caiff sifftiau allanol eu dosbarthu fel y rhai **nad** ydynt wedi'u harchebu'n uniongyrchol drwy Locum Hub Wales. Gallwch wneud hyn drwy fewngofnodi i'ch cyfrif ar Locum Hub Wales a chysoni sifftiau y byddech yn disgwyl eu gweld yn cael eu cyhoeddi yn erbyn eich Practis gyda'ch cofnodion eich hun. Mae angen i'r sifftiau hyn fod ar Locum Hub Wales er mwyn cydymffurfio â gofynion y Cynllun ar gyfer Indemniad Ymarfer Meddygol Cyffredinol, fel yr amlinellir yn Atodiad B y Canllawiau.

Os ydych wedi archebu eich Gweithwyr Locwm yn uniongyrchol drwy Locum Hub Wales, nid yw'r cysoni hwn yn angenrheidiol, gan y bydd yr holl sifftiau yn cael eu cofnodi ar y system yn awtomatig.

### Syniadau ac Awgrymiadau



### Nodi Dyddiadau

Os byddwch yn nodi dyddiadau ar WNWRS, defnyddiwch y botwm swyddogaeth calendr i ddewis y dyddiadau sydd eu hangen yn hytrach na'u teipio yn uniongyrchol i'r system. Os byddwch yn cael trafferth arbed cofnod staff newydd, gwiriwch eich bod wedi defnyddio'r opsiwn hwn i nodi unrhyw ddyddiadau, a'ch bod yn defnyddio Google Chrome i gael mynediad at WNWRS.

### Brechiadau COVID-19

Cyhoeddwyd canllawiau wedi'u diweddaru ar drefniadau indemnio yn ymwneud â chlinigau brechu COVID-19 gan Dîm Cyfreithiol a Risg Partneriaeth Cydwasanaethau GIG Cymru. Cliciwch yma i weld yr wybodaeth wedi'i diweddaru. Os oes gennych unrhyw ymholiadau indemnio yn ymwneud â brechiadau COVID-19, cysylltwch â'r tîm GMPI ar GMPI@wales.nhs.uk.